**CYPE(6)-05-23 - Papur i'w nodi 1**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Mark Isherwood AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Dyddiad | Date: 26 Ionawr 2023

Pwnc | Subject: Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i Benodiadau Cyhoeddus

Annwyl Mark,

Diolch am eich llythyr ar 7 Rhagfyr 2022 yn gofyn am farn pwyllgorau am benodiadau cyhoeddus.

Roedd eich llythyr yn un amserol, gan inni ei ystyried yn yr un cyfarfod pan gynhaliwyd dau wrandawiad cyn penodi yn ddiweddar. Ers 2021, rydym wedi cynnal tri gwrandawiad cyn penodi ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru; Cadeirydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil; a Dirprwy Gadeirydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Caiff ein harsylwadau eu llywio gan ein profiadau mewn perthynas â'r gwrandawiadau hyn. Fodd bynnag, mae rhai o'n Haelodau yn eistedd ar bwyllgorau eraill sydd wedi cynnal gwrandawiadau cyn penodi, ac yn amlwg mae eu barn wedi'i llywio gan eu profiadau yn eu cyfanrwydd.

Yn gyntaf, hoffem dynnu eich sylw at ein hadroddiadau ar bob un o'r gwrandawiadau cyn penodi. Er bod yr adroddiad ar y Comisiynydd Plant hefyd yn trafod elfennau o'r broses, ni wnaethom sylwadau ar y broses ar gyfer rolau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil y penderfynwyd y gallent lywio'ch ymchwiliad yn fwy priodol.

- Adroddiad Comisiynydd Plant Cymru; ac Ymateb Llywodraeth Cymru;
- Cadeirydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil;

- Dirprwy Gadeirydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Cyn edrych ar rai materion sy'n benodol i'r gwrandawiadau cyn penodi hynny, byddem yn tynnu sylw at gyfyngiadau rôl Pwyllgor yn y broses o wneud penodiadau cyhoeddus. Mae'n gallu bod yn ddefnyddiol i ni osod meincnodau ar gyfer gwaith craffu yn y dyfodol (fel y gwnaethom gyda'r Comisiynydd Plant) ond o ran y broses ei hun, gall roi Pwyllgor mewn sefyllfa anodd gan y gofynnir i ni wneud penderfyniadau ynghylch addasrwydd pan na wyddom sut y gwnaeth yr ymgeisydd a ffefrir berfformio yn erbyn y gronfa ehangach o ymgeiswyr. Yn amlwg, rôl y Pwyllgor yw darparu elfen o atebolrwydd cyhoeddus, ond mae'n digwydd mor hwyr yn y broses, a chydag amserlenni tynn iawn, sy'n cyfyngu ymhellach ar y Pwyllgor. Nid yw'n glir i ni pam y mae'n rhaid cyhoeddi adroddiad o fewn 48 awr i wrandawiad (er ein bod yn cydnabod y gellir negodi'r terfyn amser hwn). Teimlwn y dylid llacio'r rhagdybiaeth o amser cyhoeddi o 48 awr ar gyfer yr adroddiad, er mwyn caniatáu mwy o amser os yw Pwyllgor yn teimlo bod problem bosibl gyda phenodiad.

## Comisiynydd Plant Cymru

Byddem yn tynnu eich sylw yn benodol at ein dau argymhelliad yn ymwneud â phroses yn adroddiad y Comisiynydd Plant.

**Argymhelliad 1**

> *"Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys Pwyllgorau'r Senedd yn fwy ystyrlon yn y broses recriwtio sy'n gysylltiedig â phenodiadau gweinidogol. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth ymgysylltu â'r Pwyllgor perthnasol ar ddechrau'r broses recriwtio. Yn dibynnu ar y swydd a barn y Pwyllgor perthnasol, gallai hyn gynnwys:*
>
> *• Rhoi ffurflenni cais, CVs ac ati unrhyw ymgeiswyr ar y rhestr fer i aelodau'r Pwyllgor.*
>
> *• Cynrychiolydd o'r panel recriwtio yn briffio'r Pwyllgor cyn y gwrandawiad cyn penodi i roi trosolwg o'r broses recriwtio, trafod yr holl ymgeiswyr ac ymateb i unrhyw gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.*
>
> *• Cynnwys y Pwyllgor yn fwy ffurfiol yn y broses recriwtio (e.e. gyda chynrychiolwyr y Pwyllgor yn arsylwyr-aelodau o'r panel recriwtio)."*

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn 'mewn egwyddor'. Nodwyd bod adolygiad ar y cyd o'r broses penodiadau cyhoeddus i'w gynnal ym mis Ebrill 2022 gyda chyfraniad gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd. Nid ydym yn ymwybodol o ganlyniadau'r adolygiad hwn, a nodwn y gallai hwn fod yn fater y mae'n werth mynd ar ei drywydd fel rhan o'ch ymchwiliad. Cytunwyd hefyd y byddent yn "ystyried diweddaru'r canllawiau i gynnwys briffiau cyfrinachol i gadeirydd y pwyllgor

perthnasol ar adegau pwysig yn yr amserlen recriwtio" ar gyfer penodiadau yn y dyfodol. Ni chawsom friffiau o'r fath mewn perthynas â rolau'r Comisiwn.

**Argymhelliad 2**

> *"Dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros y penodiad i swydd Comisiynydd Plant Cymru i'r Senedd."*

Wrth wneud yr argymhelliad hwn, gwnaethom bwysleisio ei fod hefyd wedi'i godi dro ar ôl tro gan y Pwyllgor a'n rhagflaenodd. Yn ei adroddiad ar hawliau plant yng Nghymru, argymhellodd y dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros benodi ac ariannu Comisiynydd Plant Cymru i'r Senedd. Gwrthododd Llywodraeth Cymru hwn ar y pryd.

Gwrthododd y Llywodraeth ein hargymhelliad hefyd, gan ddweud nad oedd yn credu bod annibyniaeth y Comisiynydd na'r swyddfa ehangach yn cael ei thanseilio gan rôl Llywodraeth Cymru ac na fyddai trosglwyddo'r cyfrifoldeb "yn arwain at unrhyw wahaniaeth sylweddol yn y broses recriwtio a ddilynwyd."

Ein barn gref o hyd yw mai'r Senedd ddylai fod yn gyfrifol am recriwtio a phenodi'r Comisiynydd Plant. Byddem yn awgrymu efallai y bydd angen i'ch Pwyllgor roi rhagor o ystyriaeth i'r maes hwn, ar draws holl rolau'r Comisiynydd yng Nghymru.

## Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Nodwn y gwahaniaeth cynnil yn natur a chyfrifoldebau'r rolau anweithredol hyn o'u cymharu â natur rôl Comisiynydd. Fodd bynnag, mae rolau anweithredol o'r fath yn dal i fod yn hynod o bwysig a dylanwadol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol ledled Cymru. Mae'r ddwy swydd hyn, a fydd yn rhoi cyfeiriad strategol i gorff a fydd ag un o'r cyllidebau mwyaf ar gyfer corff hyd braich yng Nghymru, yn arbennig o bwysig o ran y sector addysg ôl-16.

Roedd y materion y buom yn myfyrio arnynt yn ystod ein trafodaethau ynghylch y ddwy swydd hyn yn cynnwys cefndir gwleidyddol yr ymgeiswyr. Roedd hyn hefyd wedi codi yn ystod proses cyn penodi'r Comisiynydd Plant. Mae'r gwaith papur cefndirol a gafwyd bob tro y cynhaliwyd proses cyn penodi yn rhoi gwybodaeth am unrhyw ymgeisydd sydd wedi datgan cefndir gwleidyddol. Mae'r wybodaeth hon yn ddienw ac nid yw'n rhoi manylion. Mae hyn yn golygu y gall fod yn aneglur i ba raddau y mae ymgeisydd wedi bod yn ymwneud â phlaid wleidyddol, neu â pha blaid wleidyddol y mae wedi bod yn ymwneud. Credwn y dylai fod mwy o wybodaeth gyd-destunol. Gall fod gwahaniaeth mawr rhwng rhywun sy'n aelod o blaid wleidyddol ond o bosibl ddim yn weithgar iawn o'i gymharu â rhywun a all fod yn weithgar iawn, neu a all fod wedi sefyll dros y blaid wleidyddol mewn etholiadau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol hyd yn oed.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod y mater hwn wedi codi yn ystod gwrandawiadau cyn penodi pwyllgorau eraill. Nid ein bod yn meddwl bod cefndir gwleidyddol yn atal rhywun rhag cael ei benodi,

ond y gall mwy o wybodaeth am natur y cefndir hwnnw roi sicrwydd i bwyllgor nad yw cefndir gwleidyddol wedi cael effaith fuddiol na negyddol ar y broses benodi. Byddai hyn hefyd yn rhoi sicrwydd i'r rhai sy'n gwneud cais am swydd. Nodwn fod y datganiad Gweinidogol yn cadarnhau'r penodiadau a gyhoeddwyd ar ôl ein gwrandawiad cyn penodi yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am weithgarwch gwleidyddol yr ymgeisydd, gan fanylu ar y blaid wleidyddol a syniad cyffredinol o'i gweithgarwch gan nodi ei bod wedi "canfasio i'r blaid o fewn y 5 mlynedd diwethaf."

Gall materion ehangach o ragfarn ddiarwybod effeithio ar y broses recriwtio. Gall yr ymdeimlad bod ymgeisydd 'fel ni' fod yn ffactor cymhellol pwerus, a gall ddigwydd yn is ymwybodol. Mae'n bwysig bod penodiadau cyhoeddus yn cael eu hagor i gronfa ymgeiswyr mor eang â phosibl, a bod mwy yn cael ei wneud i sicrhau ein bod yn symud y tu hwnt i'r 'ymgeiswyr arferol'.

Mewn perthynas â'r swyddi penodol hyn, roedd gennym hefyd rai pryderon nad oedd y panel recriwtio ei hun yn adlewyrchu'n llawn ehangder ac amrywiaeth y sector y bydd y Comisiwn yn gyfrifol ar ei gyfer.

Rydym yn nodi nad oes rôl i bwyllgorau'r Senedd gyfrannu at y broses i nodi swyddi lle efallai y bydd angen i ni gynnal gwrandawiadau cyn penodi. Mae hwn hefyd yn fater a godwyd gennym fel rhan o wrandawiad cyn penodi'r Comisiynydd Plant.

Credwn fod hwn yn fater pwysig sydd, yn sicr, yn haeddu rhagor o waith craffu gan un o bwyllgorau'r Senedd. Edrychwn ymlaen at eich canfyddiadau.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.